

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9 fed Fai 2016

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Meirion Owen, Jim Boughton, Janet Charlton, Marion Bettenev, Terry Bullock, Nick Corney, Caerwyn Roberts, Clerk.
Ymddiheuriadau, Siân Godbert, Karen Pugh, Gareth Parry, Cyng. Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy

Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Mr Nick Corney

Croesawodd y Cadeirydd a'r aelodau Mr Nick Corney, Millrace Cottage, Betws-y-Coed yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes cyfarfod nesaf y Cyngor

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ebrill 2016.

(1)Yr Heddlu

Yr oedd SCCH yn bresennol a dywedodd nad oedd unrhyw achosion o bryder o fewn y gymuned.

[1.1] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd bod y daflen yn barod i'w dosbarthu.

[1.2] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Goleuadau Nadolig

Dywedodd y clerc bod y goleuadau wedi ei archebu.

[1.4] Casglu Arian/Rhaeadr Ewynnol

Nodwyd bod cwmni Loomis wedi ymweld â'r Rhaeadr Ewynnol a'i bod wedi cytuno i baratoi adroddiad ynglŷn â'r posibilrwydd o gasglu arian.

[1.5] Cyfleuster Parcio i'r anabl ger Swyddfa'r Bost

Deallwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Damwain/Rhaeadr Ewynnol

Cyfeiriodd y clerc at e bost gan Mr Ken Savage a oedd yn anffodus wedi torri ei glun mewn damwain ar yr 8fed Ebrill 2016. Deallwyd gan Mr Savage bod y Gwasanaethau Brys wedi methu cael mynediad i'r safle gan fod y giât o dan glo. Penderfynwyd y dylai'r goriadau i'r safle fod ar gael mewn lleoliad yn y pentref. Y clerc i drefnu

[1.7] Nadolig Betws-y-Coed/ Mynediad i Gae Llan

Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y Brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

[a] Gosod ffenestr to math cadwraeth i edrychiad cefn y llawr cyntaf -Tŷ Cerrig, Dolydd Terrace, Betws-y-Coed

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[b] Nodwyd bod apel gan Ystad Gwydr i ganiatau cais ar gyfer adnewyddu'r Hen Dollborth, Pont-yr-Afanc, Betws-y-Coed wedi ei wrthod.

[1.9] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Ebrill 2016.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2016.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol. Cyfeiriodd y clerc at y materion canlynol yn yr adroddiad:

[1] Mae ychydig o wahaniaeth rhwng y TAW a oedd wedi ei dalu'n ol i'r Cyngor yn ol y cyfrifon, a'r cyfanswm TAW a daliwyd am y flwyddyn.

[2] Gan nodi bod 20% o ychwanegiad yn incwm y Rhaeadr Ewynnol i gymharu â'r flwyddyn gynt, mae'n ofynnol datgan y gwahaniaeth i'r archwiliwr allanol.

[2] Gwasanaethau' Cownteri Post

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth gan Swyddfa'r Bost yn cynghori y byddai'r swyddfa yn cau am wythnos yn ystod mis Gorffennaf/ Awst ar gyfer gwneud gwelliannau. Penderfynwyd ymateb i geisio iddynt ohirio'r trefniadau nes diwedd y tymor twristiaeth.

[2.1] APCE Goleuo Ymwthiol

Nodwyd bod Canllawiau Cynllunio ar gael yn swyddfa'r Parc Cenedlaethol a hefyd mewn llyfrgelloedd a Chanolfannau Twristiaeth. Y clerc i dynnu sylw bod y colofnau golau ger y Ganolfan Twristiaeth yn creu llygredd golau.

[2.2] Cais am Gyfraniad

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Cyngor BS Conwy am gyfraniad tuag at y camra cylch agos ym Mhont-y-Pair. Gan ystyried nad oedd unrhyw erlyniad wedi ei wneud am neidio o'r bont yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penderfynwyd i beidio cyfrannu y tro hwn.

[2.3] Materion Amrywiol

[a] Ffordd A470 ger Pont Waterloo. Y clerc i geisio cael bin yn y lay by.

[b] Blodau Plastig o flaen Gwesty'r Gwydr. Y clerc i gysylltu gyda'r rheolwr i ddatgan pryder nad oeddent yn addas.

[c] Gwneud cais gyda Chyngor BS Conwy i baentio'r wal gefn yn llwyd yn hytrach na gwyn.

Cadeirydd_____